

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG
Gwyndy, Bryncroes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.
Teleffon: Botwnnog 730357

10fed Mehefin, 2021.

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor drwy ddefnyddio 'zoom' (drwy garedigrwydd Y Cynghorydd Michael Strain) **Nos Lun nesaf, 14eg Mehefin, 2021**, am 7.30 y.h. Bydd y Cynghorydd Strain yn anfon e-bost atoch cyn yr amser dechrau fel y gallwch ymuno yn y cyfarfod.

RHAGLEN

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**
2. **YMDDIHEURIADAU**
3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
I dderbyn gwybodaeth.
4. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 5ed MAI, 2021.**
Copi'n amgaeëdig. "A"
I drafod materion yn codi:
(a) Eitem 10 Cadarnhau Cofnodion (Materion yn codi):
cymal (b) eitem 108 Materion Ffyrdd a Llwybrau – camfeydd
Adroddiad Y Cynghorydd Carys H. Evans.
Eitem 112 – cyfarfod wyneb yn wyneb – cyfarfodydd y Cyngor
Argymhelliad pellach oddi wrth Un Llais Cymru ar gyfer cyfarfod mis Mehefin.
Eitem 110 – Meddygfa Rhydbach, Botwnnog
Adroddiad pellach.
(b) Eitem 12 – Mater Ffyrdd a Llwybrau
Ymateb Iwan ap Trefor, Uwch Beiriannydd Traffig, Cyngor Gwynedd.
5. **CEISIADAU CYNLLUNIO**
I ystyried y ceisiadau a ganlyn ac unrhyw gais ddaw i law cyn noson y Cyngor. Os bydd cais arall i law, rhoddir gwybodaeth i chwi ymlaen llaw er rhoi cyfle i chwi gael golwg ar y we. **Noder** – nid oes copiau ar bapur yn dod mwyach ond gellwch weld manylion y cais ar safle we Cyngor Gwynedd drwy ddilyn y dolenni o dan y pennawd 'Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu'.
Cais C21/0482/32/LL – sefydlu safle gwersylla amgen tymhorol, tirlunio a gwaith cysylltiedig fel rhan o gynllun arallgyfeirio ar y fferm - Pen y Bryn Lley, Brynmawr. (ail gyflwyniad o gais C20/0935/32/LL).
6. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**
A oes unrhyw ffordd/llwybr angen sylw.
7. **AWDURDOD I DALU**
I awdurdodi'r taliadau a ganlyn ac unrhyw daliad ddaw i law cyn dyddiad y Cyngor.
Y Clarc (swm i'w nodi noson y Cyngor)

HMRC (swm i'w nodi noson y Cyngor)

8. **ARCHWILIO'R CYFRIFON**

(a) Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol.

“B”

(b) Y ffurflen flynyddol angen ei chymerdwyo.

“C”

9. **YMGYNGHORIAD GORCHYMYN GWARCHOD MANNAU
CYHOEDDUS (GDMC): RHEOLI CWN**

Y ddogfen i'w gweld arlein www.gwynedd.llyw.cymru/ymgyngoriadrheolicwn

ac mae croeso i unrhyw un gyflwyno eu sylwadau ar y ddogfen drwy lenwi'r holiadur arlein.

10. **DINASYDDION YR UE AC AEE-EFTA SY'N BYW YNG NGHYMRU**


Llythyr Edmund Sides, Cymru dros Ewrop.

“CH”

11. **DIWRNOD Y GIG – 5ed GORFFENNAF, 2021**

I ystyried y mater ymhellach.

Yn gywir,



Clarc

**AELODAETH Y CYNGOR
Y CYNGHORWYR**

David Brunelli
Dylan Parry Jones
Carys E. Williams

Carys H. Evans
Ifor Owen
Glenys Williams

Elin Hughes
Glyn Roberts
Siôn Williams

Gwenan Griffith
Michael Strain